




ADRODDIAD BLYNYDDOL

2018

## CYSYLLTWCH Â NI

 Hospis Tŷ'r Eos,  
Ffordd Caer, Wrecsam LL11 2SJ

 01978 316800

 [info@nightingalehouse.co.uk](mailto:info@nightingalehouse.co.uk)

 [nightingalehouse.co.uk](http://nightingalehouse.co.uk)

 [nightingalehouse](https://www.facebook.com/nightingalehouse)

 [nightingalehh](https://twitter.com/nightingalehh)

## EIN DALGYLCH

Mae ein siopau yn rhan hanfodol o'r gymuned leol ac maent yn sbarduno ymdrechion llwyddiannus i godi arian. Mae gennym ni siopau yn Wrecsam, yr Wyddgrug, Cefn Mawr, Rhosllannerchrugog, y Fflint, yr Eglwys Wen, Ellesmere a Chroesoswallt.

Bellach, Grwpiau Cynnal yw wyneb ein hosbis yn y gymuned, ac maent yn gweithredu fel llysgenhadon i'n gwaith. Rydym ni'n ffodus fod gennym ni gynrychiolwyr yn yr ardaloedd hyn: y Bala, Corwen, Hanmer, Lavister, Coed Llai, Llangollen, yr Wyddgrug, Rhosllannerchrugog a Wrecsam.


## DATGANIAD CENHADAETH

Darparu gwasanaethau ar gyfer unigolion a'u teuluoedd sy'n byw yng Ngogledd Ddwyrain Cymru ac ardaloedd y Gororau, sy'n byw gyda diagnosis o salwch sy'n cyfyngu ar hyd bywyd, a darparu'r gwasanaethau hynny mewn lleoliad o'u dewis hwy os gellir gwneud hynny, ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael i Hospis Tŷ'r Eos.

Yn dilyn asesiad o anghenion corfforol, cymdeithasol ac ysbrydol, caiff gwasanaethau eu darparu gan dîm amlddisgyblaethol sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n gymwys i ddiwallu anghenion bob claf, yn cynnwys y sawl sydd ag anghenion arbenigol cymhleth.

## CYFARWYDDWYR AC AELODAU O'R PWYLLGOR YMDDIRIEDOLWYR

Mr Medwyn Edwards (Llywydd)  
Mrs Eluned Griffiths (Cadeirydd)  
Dr N Braid (Is-Cadeirydd)  
Mrs A Brebner  
Mr C Burgoyne  
Mr R Cole  
Dr J Duguid  
Mr G Greasley  
His Honour P Hughes  
Mrs J Lowe  
Mr A Morse  
Mrs C Varley





# CROESO

Mae'n bleser mawr cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol yr Hospis unwaith eto. Fel pob blwyddyn, rydym ni wedi wynebu llawer o heriau, ond rwy'n falch o ddweud ei bod hi wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus o safbwynt ariannol. Mae'r strategaeth Cynhyrchu Incwm newydd a'r strwythur timau a sefydlwyd ar ddechrau'r flwyddyn hon wedi arwain at effaith cadarnhaol.

Yn adroddiad y llynedd, fe wnes i gynnig trosolwg o'n gwasanaethau ac amlygu ein dulliau o wasanaethu ein cymuned. Rydym ni wedi parhau i weithio ar gynllun datblygu i ehangu ein gwasanaethau i'w cynnig mewn cymunedau. Fe wnaiff hyn ein galluogi ni i gyrraedd at ragor o gleifion pan fydd angen gwneud hynny. Felly, rwy'n falch iawn o gyhoeddi y byddwn ni'n cynnal Clinig Allgymorth hanner diwrnod yn yr Wyddgrug ac yn y Waun, gan gychwyn ym mis Mai 2019.

Mae'r ddwy fenter newydd y gwnes i eu crybwyll yn fy adroddiad yn 2017 wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r Prosiect ynghylch Diffyg y Galon bellach wedi cael ei gwblhau a'i werthuso. Fe wnaeth gynorthwyo cleifion i reoli lliniaru symptomau ac â'u llesiant. Fe wnaeth y prosiect amlygu'r angen sy'n bodoli am y gwasanaeth hwn, ac rydym ni bellach yn archwilio ffynonellau newydd o gymorth ariannol i sicrhau y gwnaiff barhau.

Mae sefydlu'r Tim Cynorthwyo Teuluoedd wedi sicrhau bod gennym ni wasanaeth mwy effeithiol a chyflawn ar gyfer ein cleifion a'u teuluoedd.

Bydd yr hospis yn cychwyn ei 25ain blwyddyn yn fuan. Wrth edrych yn ôl, gallwn ni weld bod llawer iawn wedi cael ei gyflawni, a bod y gofal lliniarol rydym ni'n ei gynnig wedi parhau i ddatblygu yn unol â datblygiadau newydd. Mae mudiad yr hosbisau ledled y Deyrnas Unedig yn wynebu cyfnod anodd oherwydd newidiadau economaidd a demograffig a newidiadau yn y gwasanaeth iechyd. Er ein bod ni wedi bod yn llwyddiannus ac wedi parhau i ddatblygu am chwarter canrif bron iawn, ni allwn ni laesu dwylo. Mae'n rhaid i ni ddangos beth yw ein gwerth a beth yw effaith ein gofal ar ein cleifion. Ceir enghreifftiau o hyn yn yr adroddiadau eraill.

Mae mwy o bobl yn byw yn hirach gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ar hyd bywyd, felly bydd mwy o angen am ofal lliniarol yn y dyfodol.

Mewn termau real, mae ein cyllid statudol wedi bod yn gostwng bob blwyddyn ac fe wnaiff barhau i wneud hynny hyd y gellir rhagweld. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu'n rhaid i rai hosbisau gau. Rydym ni fel Bwrdd yn deall bod yn rhaid i lywodraethu a chynllunio ariannol fod yn drwyadl, ac rydym ni'n sylweddoli bod anghenion newidiol ein cymuned yn golygu bod yn rhaid i ni newid a datblygu er mwyn diwallu'r anghenion hynny.

Eleni, rydym ni wedi astudio dulliau o wella adeilad yr hospis, fel gallwn ni, yn unol â'n cynllun strategol pum mlynedd, ddarparu ein gwasanaethau yn fwy effeithiol i gyd-fynd ag anghenion newidiol ein cleifion a'u hanghenion yn y dyfodol, a chynyddu nifer y cleifion a'u teuluoedd sy'n gallu cael gofal gennym ni. Mae'r cynlluniau wedi'u cwblhau a bydd y gwaith yn cychwyn ym Mai 2019. Rydym ni'n ffodus o gael cefnogaeth Sefydliad Bradbury sydd wedi rhoi cyfraniad sylweddol tuag at y prosiect moderneiddio.

I allu goroesi, mae'n rhaid i ni wneud cynlluniau a dewisiadau rhagweithiol at y dyfodol. Felly, bydd Tŷ'r Eos mewn sefyllfa well i ddarparu'r gofal lliniarol y bydd ei angen dros y 25 mlynedd nesaf, yn yr hospis ac mewn mannau eraill yn ein cymuned.

Fel y dywedais y llynedd, ni allwn ni gyflawni unrhyw agwedd o hyn heb barhad y gefnogaeth a gawn ni gennych chi, ein cymuned.

Unwaith eto, mae fy nghydweithwyr yn y Bwrdd Ymddiriedolwyr a minnau yn ddiolchgar i chi am eich ymdrechion a'ch haelioni. Ni allwn ni ddarparu'r gofal lliniarol gorau posibl heb waith caled ac ymroddiad ein staff a'n gwirfoddolwyr, ac rydym ni'n diolch o waelod calon iddynt.

Diolch hefyd i fy nghyd-ymddiriedolwyr am eu cymorth a'u hymroddiad parhaus.

**Eluned Griffiths**  
**Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**



# MAE STORI AM FYWYD GO IAWN WRTH WRAIDD YR HOLL YSTADEGAU

Cychwynnodd taith bersonol Stewart mewn perthynas â'n hospis pan gafodd ei gyflwyno i'n gwasanaethau gofal dydd, ac yn y lle cyntaf, byddai'n mynychu ein sesiynau galw heibio wythnosol ac yn cael sesiynau ffisiotherapi.

Mae hi wedi bod yn dipyn o daith yn ystod yr ychydig flynyddoedd ddiwethaf.

Mae hydrotherapi wedi bod yn neilltuol o fuddiol o ran llesiant cyffredinol Stewart. Mae dau gwrs wedi helpu i adfywio a chynyddu ei chwant bwyd a'i awydd i fwyta, ac mae gwaith i ddatblygu ei gryfder a'i symudedd

bellach yn golygu y gall gerdded pellter cymhedrol gan ddefnyddio ffon. Mae aciwbigo hefyd wedi cyfrannu at ddatrys rhai o'i symptomau, fel rhan o gynllun rheoli symptomau ehangach. Yn ogystal â symudiadau corfforol, mae Stewart hefyd wedi mwynhau buddion cymdeithasol, ac mae wedi adfer ei hyder ac wedi ymwneud mwy dros amser â staff a chleifion eraill. Mae sesiynau addysgol ynghylch gorflinder a diffyg anadl, sy'n cynorthwyo cleifion i reoli eu symptomau eu hunain ac yn rhoi hwb i'w hunan-barch ar yr un pryd, wedi cyfrannu at hyn.

Ar ôl gwneud bywoliaeth fel cerddor yn canu'r gitâr, pan ddaeth Stewart atom ni, credai na allai ganu'r gitâr fel yr arferai wneud. Roedd yn dymuno cyfranogi yn ein sesiynau therapi cerdd, ond treuliai ei amser yn 'eistedd yn y gornel yn chwarae offerynnau taro'.

Ers 2016, yma yn Nhŷ'r Eos, rydym ni wedi cydweithio â Nordoff Robins, sefydliad therapi cerdd sy'n dathlu'r berthynas a'r llawenydd y gall cerddoriaeth ei gynnig i'r sawl sydd â salwch sy'n cyfyngu ar hyd eu bywyd, anabledau corfforol neu heriau emosiynol. Bydd therapyddion Nordoff Robins yn gweithio i newid bywydau pobl trwy gerddoriaeth, a dyna beth mae ein therapydd Charlotte Bailey wedi bod yn ei wneud.



“ Pan gwrddais â Stewart am y tro cyntaf, dywedodd yr arferai ganu'r gitâr ond ni allai wneud hynny bellach oherwydd nid oedd ei ddwylo yn fodlon gwneud beth oedd ei ymennydd yn gofyn iddynt ei wneud. Dywedodd y byddai'n fodlon eistedd yn y gornel yn defnyddio offerynnau taro. Cefais yr argraff ei fod wedi derbyn y ffaith na allai berfformio fel yr arferai wneud, ac ar yr un pryd, credai bod yr hyn yr oedd yn dal i allu ei wneud yn hollol ddi-werth, felly nid oedd yn gallu gweld sut y gallai gyfrannu. ”

- Charlotte Bailey, therapydd cerdd Nordoff Robbins



Yn ôl Charlotte, *“Roeddem ni’n dymuno ymdrin â’i sefyllfa yn sensitif i osgoi dwyn sylw at rywbeth yr oedd yn credu ei fod wedi’i gollu, ond ar yr un pryd, roeddem ni’n ffyddiog y gallai Stewart gael boddhad trwy gyfrwng cerddoriaeth unwaith eto. Byddai’n wahanol, a byddai angen cymorth graddol arno, o safbwynt personol a cherddorol, ond ein nod oedd ei alluogi ei ailafael yn ei hunaniaeth fel cerddor, i ganfod dulliau newydd o gyfrannu at weithgarwch cerddorol, a bod yn hyderus yn yr hyn yr oedd yn dal i allu ei wneud. Roeddem ni’n awyddus i Stewart allu parhau i gael yr holl brofiadau cerddorol yr oedd ganddo cyn ei salwch, mewn amgylchedd diogel heb y pwysau yr arferai eu profi.”*

Yn ystod ei drydydd sesiwn therapi cerdd, fe wnaeth Stewart ofyn yn betrus i Charlotte adael y gitâr wrth ei ymyl. Nid oedd am i neb ei wyllo i gychwyn, felly fe wnaeth hi ganiatáu rhywfaint o le iddo wrth iddo gychwyn canu’r gitâr.

Y weithred ddewr hon o afael yn y gitâr oedd y cam cyntaf yn ystod taith ble mae wedi ailddyfeisio ei hun fel cerddor.

*“Fe wnaethom ni ddechrau perfformio cerddoriaeth gyda’n gilydd a dod i adnabod ein gilydd mewn cyddestun newydd. Fe wnaethom ni ganfod pa gordiau ac arddulliau canu’r gitâr oedd yn addas i Stewart, fe wnaethom ni jamio gyda’n gilydd, fe wnaethom ni drefnu caneuon i weddu iddo, fe wnaethom ni arwain eraill yn ystod sesiynau grwpiau. Mae prynhawniau lau bellach yn ganolbwynt o weithgarwch cerddorol*

*yn y lolla gofal dydd. Mae gweld sut bydd Stewart yn bywiogi drwyddo wrth berfformio cerddoriaeth yn heintus ac mae’n ysbrydoliaeth i staff a chleifion.”*

Ym Mehefin 2017, fe wnaeth Stewart a Charlotte berfformio o flaen staff a gwirfoddolwyr mewn pabell a godwyd ar dir yr hospis.

Ychwanega Charlotte: *“Yn fwy diweddar, mae Stewart wedi ysgrifennu cân, ac rydym ni wedi’i recordio a’i chynhyrchu. ‘Let Love Be The Ruler of Your Heart’ yw enw’r gân. Roeddem ni’n credu ei bod hi’n bwysig iddo gael y profiad o recordio (yn ogystal â pherfformio) oherwydd roedd hyn yn rhywbeth yr oedd wedi’i wneud sawl gwaith yn y gorffennol fel cerddor. Yn ogystal â hynny, mae’n ddull o sicrhau parhad i’w waith a bydd y gân ar gael i bobl wrando arni yn y dyfodol.”*

Mae Charlotte a Stewart wrth eu bodd â chanlyniad eu gwaith, ac mae staff a chleifion wedi dangos diddordeb yn eu gwaith a’i ganmol hefyd.

*“Wrth fyfyrio ynghylch fy mhrofiadau o’r unigolyn y gwnes i gwrdd ag ef ddwy flynedd yn ôl, a ddywedodd ei fod wedi rhoi’r gorau i ganu’r gitâr, cefais fy ysbrydoli o’i weld yn eistedd yno, yn gwisgo’i glustffonau ac yn canu a chwarae’r gitâr i berfformio ei gân ei hun.”*

“ Nid fi a fy ego yw popeth... diolch i Charlotte, rwyf i bellach yn sylweddoli y gallaf i helpu trwy addysgu pobl eraill. ”

-Stewart, Claf



# MAE STORI AM FYWYD GO IAWN WRTH WRAIDD YR HOLL YSTADEGAU

DARPERIR EIN GOFAL GAN TÎM AMLDDISGYBLAETHOL – YN CYNWYS NYRSYS, MEDDYGON, GWEITHWYR CYMDEITHASOL, FFISIOTHERAPYDDION, CAPLANIAID, THERAPYDDION CYFLENWOL, GWIRFODDOLWYR AC ERAILL – **OLL YN CYDWEITHIO I GYNORTHWYO UNIGOLION A’U HANWYLIAID.**

Mae'r isod yn amlygu rhai o'r mathau o weithgareddau y gwnaeth tîm Tŷ'r Eos eu darparu yn ystod 2018:



# CYNORTHWYO TEULUOEDD

## YN 2018, FE WNAETH EIN TÎM CYNORTHWYO TEULUOEDD GYNNAL 1752 O SESIYNAU I GLEIFION TRWY DDARPARU CYMORTH TRWY WAITH CYMDEITHASOL, CYMORTH YSBRYDOL A CHYMORTH I YMDOPI Â PHROFEDIGAETH AR GYFER CLEIFION, GOFALWYR A THEULUOEDD.

Rydym ni'n deall beth yw effaith salwch sy'n cyfyngu ar hyd bywyd ar ein cleifion a'u hanwyliaid. Dyna pam, dros y blynyddoedd, rydym ni wedi datblygu ystod eang o wasanaethau i helpu pobl ar adegau a all fod yn heriol iawn. Mae ein staff wedi'u hyfforddi i adnabod yr anawsterau y bydd cleifion, teuluoedd a gofalwyr yn eu hwynebu pan fydd rhywun yn ddirifol wael.

Pan fydd unrhyw aelod o'n tîm yn sgwrsio â chleifion a'u hanwyliaid, byddant yn cynnig gwasanaeth cymorth emosiynol a seicolegol, ac yn cynnig yr amser a'r lle sy'n ofynnol i bob unigolyn i drafod eu pryderon pan fydd amgylchiadau yn newid, a'u helpu i ganfod dulliau o ymdopi.

Bydd y gweithwyr cymdeithasol hefyd yn cynnig cymorth â phryderon ynghylch pethau ymarferol, a gall hynny gynnwys cyngor ynghylch budd-daliadau neu wasanaethau tai i helpu cleifion, gofalwyr a theuluoedd sy'n pryderu sut gallant ymdopi ag amgylchiadau newydd sy'n aml yn annisgwyl.

Mae'r tîm, a'r caplaniaid yn enwedig, hefyd yn cynnig cymorth ynghylch materion ysbrydol, a bydd hynny'n aml yn ffocws i bobl pan fyddant yn dynesu at ddiwedd eu hoes.

Un arall o swyddogaethau'r Tîm Cynorthwyo Teuluoedd yw diogelu plant ac oedolion. Mae hyn yn hollbwysig, oherwydd mae gan Dŷ'r Eos gyfrifoldeb i amddiffyn y sawl a yr ystyrir eu bod yn agored i niwed neu 'mewn perygl'. Mae hyn yn cynnwys hyfforddi'r holl staff clinigol yn y maes hwn a bod yn gysylltiad rhwng yr hospis a'r cyrff rheoleiddio sy'n ymwneud â diogelu.

“ Mae ein hospis yn llawn bywyd, ond weithiau bydd pobl yn disgwyl i hopsis fod yn lle trist iawn. Er y byddwn ni'n delio â marwolaeth, rydym ni hefyd yn canolbwyntio ar fyw bywyd yn llawn a gwneud y gorau o'r amser sy'n weddill gan bobl. Mae llawer o chwerthin a llawenydd o amgylch yr hospis. ”

- Sarah James, Gweithiwr Cymdeithasol

## PA WASANAETHAU RYDYM NI'N EU CYNNIG?


- Cymorth emosiynol, ymarferol ac ysbrydol i gleifion a chynnyg cymorth i deuluoedd, ffrindiau a gofalwyr
- Mae sesiynau 1:1 neu sesiynau ar gyfer grwpiau ynghylch profedigaeth yn cynnig cymorth i aelodau teulu neu ffrindiau cleifion sydd dros 18 mlwydd oed
- Mae sesiynau 1:1 ynghylch profedigaeth yn darparu cymorth i blant hyd at 18 mlwydd oed yn nalgylch yr hospis, pa un a yw'r unigolyn sydd wedi marw yn hysbys i'r hospis neu beidio
- Darparu cymorth i helpu i liniaru effeithiau emosiynol a seicolegol salwch dirifol a cholled
- Darparu gwybodaeth a chymorth i deuluoedd sy'n dymuno trafod â'u plant ynghylch beth sy'n digwydd
- Helpu cleifion a'u teulu i drafod beth sy'n digwydd gyda'i gilydd
- Trefnu cymorth ymarferol i gleifion yn eu cartref
- Gweithredu fel dolen gyswllt â gweithwyr proffesiynol o asiantaethau allanol sy'n ymwneud â gofal ein cleifion
- Darparu cyngor ymarferol ynghylch materion ariannol, neu unrhyw beth arall y gallai cleifion fod yn pryderu amdano
- Gweithredu fel eiriolwr ar ran cleifion
- Asesu gofalwyr a chymorth i ofalwyr/perthnasau cleifion sy'n hysbys i'r ysbyty
- Hwyluso rhyddhau cleifion yn ddiogel ac ar yr adeg briodol o'r hospis trwy gydweithio'n agos â chleifion a gofalwyr ar y cyd â Gwasanaeth Cymdeithasol a Nyrsys Ardal



Y Gweithwyr Cymdeithasol Lesley (chwith) a Sarah (dde) gyda Gary yn ein hystafell cymorth mewn galar, 'Tryfan', y bu staff HMP Berwyn yn ddigon caredig i'w haddurno i ni.




# YR YSTADEGAU SYDD WRTH WRAIDD Y STORI



## INCWM YR HOSPIS £2.887M

- INCWM CODI ARIAN 36%
- INCWM STATUDOL 21%
- ELW'R LOTERI 19%
- RHODDION MEWN EWYLLYSIAU 11%
- INCWM ARALL 7%
- ELW'R SIOPAU 6%



## GWARIANT YR HOSPIS £2.838M

- CYMORTH I GLEIFION A'U TEULU 85%
- CODI ARIAN 15%

## BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

### CYFRANNU NWYDDAU

Bydd ein siopau elusenol bob amser yn chwilio am stoc newydd, yn cynnwys dillad, trugareddau neu ddodrefn. Yn 2018, fe wnaeth ein siopau godi elw o £173,758 (heb gynnwys Rhodd Cymorth) tuag at gynnal ein gwasanaethau i gleifion, ac fe wnaeth hynny ariannu'r hospis am 22 diwrnod.

Mae manylion llawn y cyfrifon cyfunol ar gael gan Dŷ'r Cwmnïau.

### LOTERI'R HOPIS

Ymunwch â'n loteri am £1 yr wythnos yn unig a gwnewch wahaniaeth. Eleni, fe wnaeth ein loteri elw o £535,604, a defnyddiwyd pob ceiniog i gynnal ein gwasanaethau i gleifion, ac fe wnaeth hynny ariannu'r hospis am 68 diwrnod.